UNED 2: MAPIO BANANAS

Ystod oedran: 7-11 oed

Amlinelliad
Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i rai o'r gwledydd lle mae'r bananas rydym yn eu bwyta yn y DU yn cael eu tyfu. Yn gyntaf byddant yn dod o hyd i'r gwledydd hyn ar fap o'r byd ac yn archwilio pa mor bell y mae bananas yn teithio pan fyddant yn cael eu cludo i'r DU. Yna bydd y dysgwyr yn darganfod mwy o wybodaeth am y gwledydd hyn, gan ymchwilio i agweddau fel yr hinsawdd a nodweddion daearyddol allweddol. Yn olaf, bydd y dysgwyr yn defnyddio eu canfyddiadau i nodi rhai o nodweddion cyffredin y gwledydd hyn, gan eu helpu i ddeall bod gwahanol gnydau'n tyfu'n well mewn gwahanol rannau o'r byd.

Amcanion dysgu
- Gallu defnyddio atlas neu ffynhonnell gyfeiriol arall i ddod o hyd i wledydd a chyfandiroedd ar fap o'r byd.
- Datblygu sgiliau ymchwil.
- Deall bod gwahanol gnydau yn addas i wahanol hinsoddau a rhannau o'r byd, ac yn fwyaf penodol, y bydd bananas yn tyfu orau mewn hinsawdd gynnes, heulog a llaith.

Deilliannau dysgu
- Bydd y dysgwyr yn dod o hyd i rai o'r gwledydd lle tyfir bananas ar fap o'r byd.
- Bydd y dysgwyr yn ymchwilio'n fanylach i un o'r gwledydd hyn, gan ymchwilio i agweddau fel ym mha gyfandir y mae'r wlad, pa wledydd sy'n ffinio â hi, yr hinsawdd a nodweddion daearyddol allweddol.
- Bydd y dysgwyr yn nodi rhai o'r nodweddion sy'n gyffredin i'r gwledydd hyn ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddeall bod bananas yn tyfu'n well mewn rhai hinsoddau a rhannau o'r byd.

Cwestiynau allweddol
- Ble mae'r gwledydd hyn ar y map o'r byd? Pa wlad yw'r un agosaf at y DU? Pa wlad yw'r un bellaf?
- Beth ydych chi'n ei sylwi am leoliad y gwledydd hyn?
- Beth ydych chi eisoes yn ei wybod am y gwledydd hyn? Beth fyddech chi'n hoffi ei ddarganfod?
- Sut hinsawdd sydd gan y wlad hon? A oes ganddi nodweddion daearyddol arbennig, fel afonydd, mynyddoedd neu lynnoedd?

Adnoddau
- Sioe sleidiau *Ewch yn Bananas*: sleidiau 14 i 15
- Taflenni gweithgaredd:
  1. *Mapio bananas*
  2. *Ffeil ffeithiau gwledydd*

Nodyn addysgu pwysig
Gweithgareddau ac adnoddau sy'n cael eu hawgrymu er mwyn cefnogi eich addysgu yn hytrach na'i arwain yw'r rhain. Gall fod angen mewnbwn addysgu ychwanegol i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwyr o rai o'r cysyniadau hyn. Cymerir yn ganiataol y bydd athrawon yn dewis ymestyn y gweithgareddau mewn uned dros fwy nag un wers.

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond at ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gweithgaredd 2.1 *(25 mun)*

Mapio

- Rhannwch y dysgwyr yn barau neu'n grwpiau o dri. Argraffwch gopïau A3 o *Mapio bananas* (Taflen gweithgaredd 1) a rhowch gopi i bob pâr neu grŵp.
- Yn gyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr nodi'r DU ar eu mapiau o'r byd.
- Dangoswch sleid 14 o'r sioe sleidiau *Ewch yn Bananas* ac eglurwch fod y rhestr hon yn cynnwys rhai o'r gwledydd lle mae'r bananas rydym yn eu bwyta yn y DU yn cael eu tyfu. Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio atlas neu ffynonellau cyfeiriol eraill i'w helpu i nodi'r gwledydd hyn ar eu mapiau o'r byd. *Noder: Efallai y bydd yn anodd i'r dysgwyr nodi union leoliad rhai o wledydd y Caribî ar eu mapiau, felly gallai fod yn haws iddynt nodi bras leoliadau.*
- Eglurwch fod y bananas rydym yn eu bwyta yn cael eu cludo o'r gwledydd hyn i'r DU mewn llongau. Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio eu mapiau i osod y gwledydd hyn mewn trefn yn ôl amcangyfrif o'u pellter o'r DU, o'r wlad agosaf i'r wlad bellaf. Mae'r drefn gywir, yn ogystal â'r pellteroedd mewn milltiroedd o bob gwlad i'r DU, i'w gweld ar sleid 15.
- Eglurwch ei bod yn cymryd tua phythefnos ar gyfartaledd i fananas gael eu cludo o Golombia i'r DU. Pwysleisiwch y byddai felly'n cymryd llai o amser i fananas o rai o'r gwledydd yn y rhestr hon, a mwy o amser o wledydd eraill.

Gwahaniaethu

- *Gwneud pethau'n haws: Gallai'r dysgwyr yn syml iawn nodi'r cyfandiroedd y mae'r gwledydd hyn yn rhan ohonynt a nodi'r rhain ar eu mapiau o'r byd.*
- *Gwneud pethau'n anos: Gallai'r dysgwyr ddefnyddio'r Rhyngrwyd i ymchwilio drostynt eu hunain i'r pellter o bob gwlad i'r DU. Gweler: www.foodmiles.com*

Gweithgaredd 2.2 *(45 mun+)*

Ble mae bananas yn tyfu?

- Yn eu parau neu mewn grwpiau o dri, gofynnwch i'r dysgwyr edrych unwaith eto ar eu mapiau o'r byd a meddwl am y gwledydd lle mae llawer o'r bananas rydym yn eu bwyta yn cael eu tyfu. Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried a thrafod y cwestiynau a ganlyn:
  - *Beth ydych chi'n sylwi am leoliad y gwledydd hyn? Ym mha gyfandiroedd y mae'r gwledydd?*
  - *A ydynt yn hemisffer y gogledd ynteu hemisffer y de? A ydynt yn agos i'r Cyhydedd ynteu'n bell o'r Cyhydedd?*
  - *Sut hinsawdd fyddech chi'n meddwl sydd gan y gwledydd hyn? Pam yr ydych chi'n meddwl hyn?*
  - *Beth ydych chi'n ei wybod yn barod am y gwledydd hyn? Beth fyddech chi'n hoffi ei ddarganfod?*
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis un o'r gwledydd a gweithio gyda'i gilydd yn eu grwpiau i ymchwilio i rai o'r ffeithiau amdani. Yn ddelfrydol, bydd y dosbarth yn ymchwilio i ddetholiad o wahanol wledydd. *Noder: Os bydd y dysgwyr yn dewis ymchwilio i Ynysoedd y Gwynt, efallai y byddai'n haws iddynt ymchwilio i un yn unig o'r gwledydd hyn.*
- Anogwch y dysgwyr i ystyried agweddau fel nodweddion daearyddol pwysig a'r hinsawdd pan

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond at ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon

fyddant yn gwneud eu hymchwil. I ddechrau, efallai y byddech yn hoffi cytuno fel dosbarth ar restr gyffredin o gwestiynau y dylai eu hymchwil eu hateb.

- Caniatewch amser ar ddiwedd y gweithgaredd i ddysgwyr rannu'r hyn y maent wedi ei ddarganfod am y gwahanol wledydd. Nodwch unrhyw bethau sy'n debyg rhwng y gwledydd, o ran lleoliad a hinsawdd. Eglurwch fod bananas yn tyfu orau mewn rhanbarthau trofannol lle mae hinsawdd gynnes, heulog a llaith (mae pob un o'r gwledydd sydd ar y rhestr o fewn 30^{o} i'r gogledd neu i'r de o'r Cyhydedd). Eglurwch fod gwahanol gnydau'n tyfu orau mewn gwahanol hinsoddau ac mewn gwahanol rannau o'r byd.

Gwahaniaethu

- *Gwneud pethau'n haws: Gallai'r dysgwyr gwblhau'r Ffeil ffeithiau gwledydd (Taflen gweithgaredd 2) i helpu i arwain eu hymchwil.*
- *Gwneud pethau'n anos: Gallai'r dysgwyr greu taflen, poster, postiad blog neu sioe sleidiau i gyflwyno'r wybodaeth y maent wedi'i darganfod am eu gwlad.*

Syniadau pellach

- Gallai'r dysgwyr ymchwilio i ddarganfod ble yn y byd y mae ffrwythau cyffredin eraill yn cael eu tyfu. Er enghraifft, gallai'r dysgwyr ddefnyddio map o'r byd i ddod o hyd i leoliad rhai o'r gwledydd lle mae afalau'n cael eu tyfu (er enghraifft Seland Newydd, De Affrica, Chile, UDA a Sbaen). Cefnogwch y dysgwyr i ddysgu am unrhyw nodweddion sy'n gyffredin i'r gwledydd hyn, er enghraifft eu lleoliad a'u hinsawdd, a sut y mae'r rhain yn cymharu â'r rhai a nodwyd ar gyfer y gwledydd lle mae'r bananas rydym yn eu bwyta yn cael eu tyfu.
- Gallai'r dysgwyr ymchwilio i'r gwledydd y mae bwydydd cyffredin eraill sydd yn ein basgedi siopa yn tarddu ohonynt.
    - Gweler sesiwn 2 yn adnodd 'Global Food Challenge' Oxfam ar gyfer plant 7-11 oed: https://www.oxfam.org.uk/education/classroom-resources/global-food-challenge/
- Gallai'r dysgwyr ymchwilio i filltiroedd bwyd gwahanol ffrwythau a llysiau pan fyddant yn cael eu cludo i archfarchnadoedd yn y DU. Mae milltiroedd bwyd yn un ffordd o edrych ar effaith amgylcheddol y bwyd rydym yn ei fwyta. Po bellaf y mae bwyd yn gorfod teithio i gyrraedd yr archfarchnad, po fwyaf yr effaith y mae'r teithio hwn yn ei gael ar yr amgylchedd. Mae'n bwysig nodi bod llawer o ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar effaith amgylcheddol bwyd, er enghraifft dulliau ffermio a sut y mae bwyd yn cael ei becynnu. Mae'n bosibl hefyd nad yw milltiroedd bwyd yn ystyried y pellter y mae prynwr yn ei deithio i archfarchnad neu'r pellter a deithir wrth gludo, gwaredu ac ailgylchu gwastraff bwyd.
    - Gweler: www.foodmiles.com/

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB / Y Sefydliad Masnach Deg
Gallwch ddefnyddio'r lluniau a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y llun hwnnw, ynghyd ag Oxfam a'r Sefydliad Masnach Deg. Ni chewch ddefnyddio'r lluniau na'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r lluniau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.

Mapio bananas

Taflen gweithgaredd 1

Dyma rai o'r gwledydd lle mae'r bananas yr ydym yn eu bwyta yn cael eu tyfu. Ceisiwch nodi'r gwledydd hyn ar eich map o'r byd.

Ghana Colombia Ynysoedd y Gwynt Periw

Gweriniaeth Dominica Costa Rica Y Traeth Ifori Belize

Ffynhonnell y map: Y Gymdeithas Ddaearyddol www.geography.org.uk

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond at ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon

Ffeil Ffeithiau Gwledydd

Taflen gweithgaredd 2

Enw'r wlad: _____

Prifddinas: _____

Cyfandir: _____

Baner y wlad

Gwledydd cyfagos: _____

_____

Moroedd neu gefnforoedd cyfagos: _____

_____

Poblogaeth: _____

Nodweddion daearyddol pwysig (er enghraifft mynyddoedd, afonydd, llynnoedd, diffeithdiroedd a choedwigoedd):

_____

_____

_____

Hinsawdd: _____

_____

Y cnydau a dyfir: _____

_____

Yr ieithoedd a siaredir: _____

_____

Ffeithiau diddorol: _____

_____

_____

_____

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond at ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon